ELL 07-02(p.4)

Estyn

# Adolygiad Polisi: Y Gymraeg ym Myd Addysg

**Cynnwys**
**Tudalen**

# Adolygiad Polisi: Y Gymraeg ym Myd Addysg

## Pwyllgor addysg a dysgu gydol oes


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Y blynyddoedd cynnar | 1 |
| Ysgolion cynradd | 2 |
| Ysgolion uwchradd | 5 |
| Colegau addysg bellach | 9 |
| Cymraeg i oedolion | 10 |
| Hyfforddiant yn y gwaith | 11 |
| Gyrfaoedd | 12 |
| Awdurdod addysg lleol | 12 |
| Hyfforddiant cychwynnol i athrawon | 15 |
| Llythrennedd deuol mewn ysgolion | 17 |
| Argymhellion | 19 |

# ADOLYGIAD POLISI: Y GYMRAEG YM MYD ADDYSG

**PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES: 24 Ebrill 2002**

**Cyflwyniad**

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yw Estyn. Mae Estyn yn arolygu darpariaeth ymhob sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru ac eithrio addysg uwch ond yn cynnwys hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn sefydliadau addysg uwch.

Diben y papur hwn yw darparu crynodeb o safbwynt Estyn ar yr adolygiad polisi o'r Gymraeg ym myd addysg. Mae'n mynd i'r afael â phob sector addysg a hyfforddiant y mae Estyn yn ei arolygu. Mae'n nodi tystiolaeth berthnasol, yn amlinellu'r hyn sy'n gweithio ac yn nodi meysydd sy'n peri pryder, gan arwain at set derfynol o argymhellion. Bwriedir iddo ategu'r cyflwyniad y bydd Prif Arolygydd Estyn yn ei wneud i'r Pwyllgor ar 24 Ebrill 2002.

## 1. Y blynyddoedd cynnar

**Tystiolaeth**

Mae bron bob plentyn ifanc o dair i bum mlwydd oed yn derbyn rhyw fath o addysg blynyddoedd cynnar naill ai yn y sector a gynhelir neu'r sector nas cynhelir a hynny naill ai am ddiwrnod cyfan neu ran o ddiwrnod.

Dengys ein tystiolaeth arolygu fod plant ifanc yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mewn ysgolion Cymraeg penodol neu ysgolion dwyieithog, yn aml, caiff disgyblion 3-5 oed sylfaen dda ar gyfer datblygu eu rhwyddineb yn y Gymraeg. Mae hyn yn wir hyd yn oed pan ddônt o aelwydydd lle mai Saesneg yw unig iaith yr aelwyd. Mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng, caiff llawer o blant ifanc rywfaint o brofiad cynnar o'r Gymraeg hefyd sy'n eu cyflwyno i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd o ddydd i ddydd.

Mae plant ifanc hefyd yn cael rhywfaint o gefnogaeth wrth ddysgu'r Gymraeg mewn lleoliadau gwirfoddol, preifat ac annibynnol eraill yn y sector nas cynhelir. Mae rhyw 20% o blant ifanc yn mynychu grwpiau chwarae Cymraeg yn y

sector nas cynhelir. Fodd bynnag, nid oes union ffigwr ar gael ar gyfer cyfanswm y plant ifanc sy'n cael profiad cynnar o ddysgu'r Gymraeg yn y sector Saesneg nas cynhelir.

Yn y sector Cymraeg nas cynhelir, mae Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) yn effeithiol wrth helpu plant ifanc i sefydlu sylfeini da yn y Gymraeg. Darpara addysg a chefnogaeth drwytho yn y Gymraeg i blant o aelwydydd Cymraeg a rhai aelwydydd di-Gymraeg. Mae MYM hefyd yn gweithio'n effeithiol â phlant ifanc sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol a ddaw yn bennaf o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig mewn canolfannau trefol megis Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin wedi profi ei allu i ddarparu sylfaen dda yn y Gymraeg i blant ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae hyn wedi esgor ar ddewis i rieni anfon eu plant i ysgolion Saesneg neu Gymraeg eu cyfrwng ar ôl y profiad hwn.

Pan fydd plant o oedran cyn ysgol yn dysgu'r Gymraeg mae'n rhoi cyfle gwerthfawr iddynt ddechrau sylweddoli natur unigryw Cymru, ei hieithoedd a'i diwylliant. Mae hefyd yn sefydlu camau paratoi gwerthfawr i blentyn ddysgu'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1. Yn aml mae plant ifanc yn elwa'n fawr o ddefnyddio'r Gymraeg wrth chwarae, chwarae rôl ac mewn gweithgareddau strwythuredig ar draws y sector.

Mae 'Canlyniadau Dymunol' ACCAC a'r canllawiau a gynhyrchwyd gan rai AALl ar y chwe maes dysgu wedi helpu athrawon i feithrin medrau iaith disgyblion a gall hyn gynnwys eu medrau dwyieithog. Mae Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar mewn AALl wedi gwella'r gwaith cynllunio ar gyfer addysg Gymraeg i blant ifanc.

**Prif feysydd pryder**

- Nid oes digon o wybodaeth ddibynadwy ar y graddau y mae plant ifanc yn dysgu'r Gymraeg yn y sector nas cynhelir.
- Yn gyffredinol nid oes arweiniad digon manwl ar gael i arweinwyr grwpiau chwarae a meithrinfeydd ar lunio cwricwlwm mewn lleoliad dwyieithog neu wrth ddatblygu medrusrwydd plant mewn ail neu drydedd iaith.

## 2. Ysgolion cynradd

### Cymraeg iaith gyntaf

### Tystiolaeth

Dengys tystiolaeth arolygu (2000-2001) fod safonau ym maes Cymraeg iaith gyntaf yn dda neu'n dda iawn mewn 53% o ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 1 ac mewn 43% o ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 2. Nid oes unrhyw ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 1 lle mae safonau'n anfoddhaol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae 7% o ddosbarthiadau'n anfoddhaol.

Mae asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn adlewyrchu'r safonau da hyn. Yng nghyfnod allweddol 1, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill lefel 2 neu'n uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf oddeutu 86%. Yn yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl) sy'n perfformio waethaf (Sir y Fflint), 79% yw'r ganran tra mai 93% yw'r ganran yn yr AALL sy'n perfformio orau (Wrecsam).

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill lefel 3 wedi cynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf (o 18% ym 1996 i 25% yn 2001). Mewn darllen y bu'r cynnydd mwyaf (o 17% i 28%) gyda chynnydd llai mewn llafaredd (o 19% i 24%) ac ysgrifennu (o 6% i 10%).

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill lefel 4 neu'n uwch mewn Cymraeg iaith gyntaf oddeutu 70%. Yn yr AALl sy'n perfformio waethaf (Ynys Môn), 60% yw'r gyfran tra mai 82% yw'r gyfran yn yr AALl sy'n perfformio orau (Caerdydd). Gellir priodoli'r amrywiaeth hwn yn rhannol i'r ffaith bod cyfran lawer uwch o ddisgyblion yn sefyll y prawf mewn Cymraeg fel iaith gyntaf yn Ynys Môn, tra bod holl ddisgyblion Caerdydd mewn nifer fach o ysgolion penodol Cymraeg eu cyfrwng.

Bu cynnydd tebyg yng nghyfran y bechgyn a'r merched sy'n cyflawni lefel 4 dros y pum mlynedd diwethaf (tua 17 pwynt canran yn y ddau achos). Fodd bynnag, mae cyfran y bechgyn sy'n ennill lefel 5 (15%) gryn dipyn yn is na chyfran y merched (26%).

### Beth sy'n gweithio'n dda i wella ysgrifennu?

Yn aml mae ysgolion lle mae safonau mewn ysgrifennu'n dda yn gwneud cysylltiadau da rhwng yr amryw foddau iaith (llafaredd, darllen ac ysgrifennu). Er enghraifft, pan gaiff disgyblion gyfle i frawddegu, disgrifio a chyfleu safbwynt ar lafar cyn eu hysgrifennu, ceir effaith fuddiol yn aml ar ansawdd a chywirdeb eu gwaith ysgrifenedig.

Gall ymweliadau â ffocws gan athrawon bro helpu hefyd i gyfoethogi ysgrifennu disgyblion. Yn yr arfer gorau, mae ymweliadau wythnosol fel arfer er mwyn gweithio gyda dosbarth am ran o sesiwn neu sesiwn gyfan pan fydd disgyblion yn cynnal sesiynau 'syniadau sydyn' ar lafar gyda'r athro ac yn casglu disgrifiadau perthnasol, ymadroddion priodweddol a geirfa.

Mae'r strategaethau hyn, ynghyd â fframiau ysgrifennu a rhestr gyfeirio o batrymau defnyddiol, geirfa ac ymadroddion priodweddol, wedi esgor ar safonau gwell mewn ysgrifennu mewn llawer o ysgolion Cymraeg a dwyieithog.

**Beth sy'n gweithio'n dda i wella darllen?**

Yn aml mae gan ysgolion lle mae safonau mewn darllen yn dda gyflenwad cyfoes o lyfrau Cymraeg (ffuglen a ffeithiol) sy'n ateb anghenion amrywiaeth eang o ddiddordebau. Telir sylw i fuddiannau bechgyn yn yr ysgol, gan gydnabod yr angen arbennig i annog bechgyn i ddarllen. Mae rhai ysgolion hefyd yn meithrin strategaethau i bori drwy lyfrau a'u defnyddio'n ehangach, er enghraifft fel sail ar gyfer datblygu gwaith llafar a gwaith drama, ar gyfer gwaith mewn addysg bersonol a chymdeithasol ac fel ffynhonnell cyfoethogi personol. Yn aml defnyddiant gymuned ehangach yr ysgol i wneud darllen yn hwyl a rhoi statws uchel iddo. Mae rhieni ac oedolion eraill yn darllen darnau o'u hoff lyfrau plant ac maent yn paratoi 'sachau llyfrau' [1] i fabanod er mwyn ennyn chwilfrydedd am ddarllen. Mae pobl leol adnabyddus yn siarad am y llyfrau yr oeddent hwythau yn arfer eu mwynhau pan yn ifanc ac mae awduron yn ymweld ag ysgolion er mwyn gweithio gyda disgyblion ar gyfansoddi llyfrau newydd neu roi diweddglo gwahanol i lyfrau y mae'r plant eisoes wedi'u darllen.

[1] Mae 'sachau llyfrau' yn cynnwys amrywiaeth o arteffactau a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'r llyfrau, er enghraifft pypedau, gemau, tapiau o dadau/dynion yn darllen darnau.

Mae rhaglenni darllen mewn parau ac mewn grwpiau yn gweithio'n dda mewn llawer o ysgolion. Mae'r strategaeth hon yn gwneud llyfrau'n fwy hygyrch i ddarllenwyr nad ydynt yn darllen gystal ac yn hyrwyddo pleser darllen i bawb.

**Prif feysydd pryder**

- Yn aml nid yw safon ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg yn ddigon da.
- Yn aml ychydig o ddarllen personol yn y Gymraeg a wna disgyblion.
- Mae rhy ychydig o fechgyn yn cyflawni rhagoriaeth yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Cymraeg ail iaith**

**Tystiolaeth**

Mae tystiolaeth arolygu yn nodi bod Cymraeg ail iaith yn un o'r pynciau lle mae safonau ar eu huchaf yng ngyfnod allweddol 1 ac ar eu hisaf yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 1, mae safonau'n dda neu'n dda iawn mewn 57% o ddosbarthiadau ac yn anfoddhaol mewn tua 2% o ddosbarthiadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau'n dda neu'n dda iawn mewn 44% o ddosbarthiadau ac yn anfoddhaol mewn 11% o ddosbarthiadau.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

Yn aml mae'r ysgolion a'r lleoliadau (gan gynnwys canolfannau iaith) lle mae safonau'n dda yn gosod amcan clir iddynt hwy eu hunain, sef y bydd disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Er mwyn cyflawni hyn, nodant y patrymau iaith, y swyddogaethau a'r eirfa y bydd eu hangen ar y plant er mwyn dysgu o flwyddyn i flwyddyn. Addysgant y rhain yn drylwyr ac yn gyson ac adeiladant ar wybodaeth a medrau'r disgyblion o ddosbarth i ddosbarth wrth iddynt symud yn eu blaenau drwy'r ysgol.

Mae canolfannau iaith i'r rheini nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg ac sy'n newydd-ddyfodiaid i ardaloedd ac addysg Gymraeg eu hiaith yn gweithio'n effeithiol yn aml. Mae'r canolfannau hyn yn darparu cwrs iaith dwys dros un i ddau dymor (amser-llawn neu ran-amser). Gan fod llawer o'r

gwaith yn drawsbynciol, mae’r disgyblion yn dysgu defnyddio’r iaith y maent newydd ei dysgu mewn amryw gyd-destunau a sefyllfaoedd o’r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn eu paratoi’n dda i ymuno â dosbarthiadau dwyieithog/Cymraeg pan ddychwelant i’w hysgolion cynradd.

**Prif feysydd pryder**

- Ni wna disgyblion ddigon o gynnydd mewn Cymraeg fel ail iaith ac yn aml ni allant gynnal sgwrs yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2.
- Nid yw’n ddigon clir i ysgolion pa batrymau iaith, termau a geirfa y mae angen iddynt eu haddysgu i bob grŵp blwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 i adeiladu’n raddol ar eu medrau.
- Mewn llawer o ysgolion, er gwaethaf yr holl waith da a wneir i roi hyfforddiant i athrawon a’u hymrwymiad i gyflwyno’r rhaglen orfodol yn y Gymraeg, ni all disgyblion ddefnyddio’r Gymraeg fel ail iaith ym mhynciau eraill y cwricwlwm. O ganlyniad, ni allant drosglwyddo’n llwyddiannus i addysg Gymraeg neu ddwyieithog os dymunant wneud hyn.
- Mae addysgu Cymraeg ail iaith, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn dal yn her i athrawon ysgolion cynradd nad ydynt yn siaradwyr rhugl eu hunain.

## 3. Ysgolion uwchradd

### Cymraeg iaith gyntaf

### Tystiolaeth

Dengys tystiolaeth arolygu fod safonau’n dda yn gyffredinol. Mae canran y dosbarthiadau lle mae safonau’n dda neu dda iawn yn uwch yn y Gymraeg (65%) nag ydyw mewn unrhyw bwnc arall yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Nid oes safonau anfoddhaol mewn unrhyw ddosbarth. Mae canran y dosbarthiadau lle mae addysgu da neu dda iawn hefyd yr uchaf o holl bynciau’r Cwricwlwm Cenedlaethol (69%). Mae addysgu yn anfoddhaol mewn 3% o ddosbarthiadau.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae 71% o ddisgyblion yn cyflawni lefel 5 neu’n well (o’u cymharu â 62% yn y Saesneg). Mae’r AALl lle mae niferoedd uchel o siaradwyr

Cymraeg (Gwynedd, Ynys Môn a Sir Gâr) yn cael sgorau gwell nag ar gyfer y Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 4, cyflawnodd 72% o'r disgyblion a gymerodd TGAU Cymraeg iaith gyntaf gyda graddau A*-C tra mai tua 56% oedd y ffigwr cymharol ar gyfer y Saesneg.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cael eu haddysgu a'u hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnodau 3 a 4 yn amrywio'n helaeth rhwng ardaloedd traddodiadol Cymraeg. Yng Ngwynedd, er enghraifft, caiff 78.5% o garfan Blwyddyn 9 eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf fel pwnc, tra mai dim ond 29% yw'r ffigwr yn Sir Gaerfyrddin. Ym Mlwyddyn 11 yng Ngwynedd, addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf i 82% tra mai dim ond 28.5% yw'r ffigwr yn Sir Gaerfyrddin. (Seilir y ffigurau hyn ar ganlyniadau cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ar gyfer 2001).

Mae gormod o ddisgyblion mewn ysgolion dwyieithog yn dilyn cyrsiau Cymraeg ail iaith a sefyll TGAU Cymraeg ail iaith er eu bod wedi gwneud asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r strategaeth hon yn rhoi hwb i ganlyniadau cyffredinol ysgolion, gyda mwy o ddisgyblion yn ennill gradd A*-C mewn Cymraeg ail iaith. Fodd bynnag, o ran dilyniant disgyblion yn y Gymraeg, mae hwn yn hwb artiffisial a chyflwynir llai o her iddynt o ganlyniad. Nid yw ysgolion Cymraeg penodol yn rhoi'r cynnig hwn. Un ffordd i fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn fyddai adolygu strwythur asesu allanol a chynnig achrediad deuol o gyrhaeddiad disgyblion mewn arholiadau megis TGAU fel y gellid dyfarnu graddau i'r disgyblion am eu cyrhaeddiad yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

Mae ysgolion lle mae safonau'n dda yn adeiladau'n effeithiol ar gyrhaeddiad blaenorol disgyblion yn yr iaith. Yn aml mae staff yn yr ysgolion hyn wedi gweld budd cael arweiniad clir a hyfforddiant ynghylch sut i gynnig darpariaeth ddwyieithog a sut i ddatblygu medrau iaith disgyblion ymhob pwnc o'r cwricwlwm.

Mae'r ysgolion hyn hefyd yn gweithio'n dda i wella dealltwriaeth rhieni o fuddiannau addysgol dwyieithrwydd i'w plant. Mae'r ysgolion dwyieithog mwyaf llwyddiannus yn cynhyrchu polisïau iaith ysgol-gyfan a llyfrynnau esboniadol ar gyfer rhieni.

**Prif feysydd pryder**

- Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, ni addysgir Cymraeg fel iaith gyntaf i gyfran uchel o ddisgyblion o fröydd Cymraeg.

- Mae gormod o ddisgyblion yn sefyll TGAU Cymraeg ail iaith ar ôl gwneud asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

- Mae cyfran y disgyblion a gyflwynir ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf ac sy'n ennill graddau A*-C yn rhy isel.

**Cymraeg ail iaith**

**Tystiolaeth**

Dengys tystiolaeth arolygu fod cyfran y dosbarthiadau cyfnod allweddol 3 mewn Cymreag ail iaith ymhlith yr isaf yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae safonau'n anfoddhaol neu'n wael mewn 12% o ddosbarthiadau. Mae cyfran y dosbarthiadau lle mae addysgu da neu dda iawn (45%) hefyd yn is nag unrhyw bwnc arall yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac mae'r addysgu yn anfoddhaol mewn 12% o ddosbarthiadau.

Bellach addysgir Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith i bron bob disgybl (99%) hyd at ac yn cynnwys cyfnod allweddol 4. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa orfodol y Gymraeg yng nghwricwlwm cyfnod allweddol 4. Ym 1992, dim ond i 35% o ddisgyblion yr addysgid y Gymraeg iddynt.

Mae mwy na hanner y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 yn mynd ar hyd llwybr y 'cwrs byr'. Fel arfer, mae hyn yn golygu gwers awr mewn Cymraeg ail iaith bob wythnos. Weithiau, mae'n llai na hyn. Yn aml mae ansawdd profiad y 'cwrs byr' hwn yn anfoddhaol. Yn 2001, canran y disgyblion a gyflwynwyd ar gyfer cwrs TGAU llawn Cymraeg ail iaith oedd 31%. Mae'r 19% a gyflwynwyd ar gyfer y cwrs byr yn cynrychioli cynnydd o 9 pwynt canran er 1999.

Cyflawnodd chwe deg tri y cant o ddisgyblion a gyflwynwyd ar gyfer TGAU llawn Cymraeg ail iaith raddau A*-C. Fodd bynnag, dim ond 35% o'r rheini a gyflwynwyd ar gyfer y cwrs byr a enillodd radd A*-C, a chafodd y rhan fwyaf o'r

rhain radd C. Serch hynny, roedd canlyniad A*-C y cwrs byr yn y Gymraeg yn well na chanlyniadau cyrsiau byrion mewn Ffrangeg neu Almaeneg.

Mae tua un allan o dri disgybl (37%) sy’n dilyn cyrsiau Cymraeg ail iaith ym Mlwyddyn 11 nad ydynt yn sefyll unrhyw arholiad sy’n arwain at gymhwyster y brif ffrwd yn y Gymraeg. Mae ymgeiswyr cwrs llawn Cymraeg ail iaith a’r cwrs byr yn rhoi cyfrif am oddeutu 50% o garfan Blwyddyn 11, gyda Chymraeg iaith gyntaf yn rhoi cyfrif am 13% ac ymgeiswyr Tystysgrif Cyrhaeddiad Addysgol yn rhoi cyfrif am ryw 3% o’r garfan.

Mae llawer o athrawon Cymraeg ail iaith nad ydynt yn arbenigwyr iaith, ond gallant siarad Cymraeg ac yn aml maent yn ei haddysgu fel ail iaith oherwydd prinder arbenigwyr Cymraeg. Yn aml mae’r athrawon hyn yn effeithiol ac yn frwdfrydig, ond ni chânt oll hyfforddiant ac arweiniad clir am sut i wneud y mwyaf o ddysgu disgyblion yn yr iaith.

**Beth sy’n gweithio’n dda?**

Yn aml mae disgyblion yn gwneud cynnydd mwy effeithiol mewn ysgolion lle mae model hyblyg o addysgu’n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys addysgu’r Gymraeg fel pwnc a defnyddio’r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer addysgu pynciau eraill, yn enwedig pynciau ymarferol.

Mae rhai ysgolion uwchradd yn ne-ddwyrain Cymru wedi datblygu patrymau cwricwlaidd dyfeisgar er mwyn cyflwyno’r Gymraeg mewn modd effeithiol. Er enghraifft, darparant rywfaint o addysgu dwyieithog mewn pynciau heblaw’r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 a chyrsiau dwys naill ai yng nghyfnod allweddol 3 neu gyfnod allweddol 4. Mae’r strategaeth hon yn helpu i godi safonau’n gyflym ac yn llwyddiannus. Yn aml mae athrawon bro yn effeithiol wrth gefnogi prosiectau dwys a dyfeisgar (er bod athrawon bro yn gweithio’n bennaf mewn ysgolion cynradd).

**Prif feysydd pryder**

- Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn rhy isel yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Yn arbennig, nid oes digon o ddisgyblion yn rhugl yn yr ail iaith erbyn diwedd cyfnod allweddol 3.

- Mae gormod o ddisgyblion yn methu â chael eu cyflwyno i sefyll arholiad mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd Blwyddyn 11.

- Nid oes digon o ddilyniant a pharhad rhwng y cyfnodau allweddol, yn enwedig cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, gyda gormod o ddisgyblion yn trosglwyddo o ddarpariaeth Gymraeg i ddarpariaeth Saesneg ei chyfrwng.

- Mae'n bwysig dysgu o fodelau cyflwyno effeithiol, er enghraifft cyrsiau byr dwys, sydd wedi bod yn fwy effeithiol ac effeithlon na moddau 'tameidiog'.

- Ni fu digon o ymchwil i'r posibilrwydd o gynnig achrediad deuol ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith, yn enwedig ar lefel TGAU.

## 4. Colegau addysg bellach

**Tystiolaeth**

Mae llai na 2% o holl fyfyrwyr colegau AB yn cael eu gwaith wedi'i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn er gwaethaf cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n symud ymlaen i golegau addysg bellach.

Bu cynnydd yn nifer y colegau sy'n meddu ar gynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r colegau hyn yng ngogledd a gorllewin Cymru yn bennaf (maent yn cynnwys Coleg Menai, Coleg Meirion Dwyfor, Coleg Llysfasi, Coleg Llandrillo a Choleg Sir Gâr). Mae eu cynlluniau iaith yn cynnwys amserlenni penodol ar gyfer ymestyn ystod y cyrsiau, neu rannau o gyrsiau, a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er y bu rhywfaint o gynnydd mewn rhai colegau yn y de-ddwyrain, megis Coleg Pontypridd, lle mae mwy o lwybrau Cymraeg neu ddwyieithog yn cael eu datblygu, ychydig o gynnydd yn gyffredinol a welir o'n tystiolaeth.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

Mae enghreifftiau o arfer da mewn rhai colegau o ran eu darpariaeth o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog, yn fwyaf penodol yng Ngholeg Meirion Dwyfor,

Coleg Llysfasi a Choleg Menai. Mae Coleg Llandrillo, Coleg Sir Gâr a Choleg Pontypridd yn ymestyn eu darpariaeth. Gallai llawer o golegau eraill elwa ar ddatblygu patrymau tebyg o ddarpariaeth.

Bu cynnydd ym maint ac ystod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bu twf arbennig o gadarnhaol yn y defnydd o ddeunyddiau aml-gyfrwng sydd ar gael drwy'r rhyngrwyd gan y Coleg Digidol. ELWa sydd wedi ariannu'r gwaith o'u cynhyrchu.

Yn ddiweddar mae'r Sefydliad Hyfforddi Cenedlaethol Addysg Bellach wedi cyhoeddi ei 'Safonau ar gyfer Addysgu Dwyieithog a Chefnogi Dysgu Dwyieithog'. Nid yw'r rhain wedi effeithio'n llawn ar y sector hyd yn hyn.

**Prif feysydd pryder**

- Mae rhy ychydig o ddisgyblion yn parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg pan ânt o'r ysgol uwchradd i addysg bellach, a hyn yn rhannol oherwydd bod rhy ychydig o gyrsiau dwyieithog neu Gymraeg yn cael eu cynnig.

- Asesir rhy ychydig o fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg ym myd addysg bellach.

## 5. Cymraeg i oedolion

**Tystiolaeth**

Y Cyngor Cenedlaethol sy'n gyfrifol am ariannu'r ddarpariaeth Cymraeg i oedolion. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys ystod eang o ddarparwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn wyth consortiwm. Mae'r consortia yn cynnwys pob darparwr Cymraeg i oedolion o fewn dalgylch penodol. Sefydlwyd y consortia ym 1994 i gydlynu a datblygu'r ddarpariaeth mewn dull strategol.

Mae'r galw am ddarpariaeth Gymraeg i oedolion wedi cynyddu'n sylweddol, o 13,300 myfyriwr yn cofrestru ar gyrsiau ym 1994 i 21,011 yn 2001. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gweithio tuag at lefelau 1 a 2.

Mae ein tystiolaeth (2000-2001) yn nodi bod pob darparwr Cymraeg i oedolion yn darparu cyrsiau o safon sydd o leiaf yn foddhaol. Mae safonau gwaith yn dda ar bob lefel yn y rhan fwyaf o achosion.

**Beth sy’n gweithio’n dda?**

Mae cyrsiau dwys, megis ‘wlpan’ a chyrsiau preswyl byr, wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth helpu oedolion i ddysgu’r Gymraeg.

**Prif feysydd pryder**

- Nid oes digon o ddysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch. Mae llawer yn fodlon i gadw eu dysgu ar yr un lefel am gyfnod rhy hir. Mae llawer yn bobl sy’n dysgu’r Gymraeg yn eu hamser hamdden ac nid ydynt yn teimlo’r angen i symud ymlaen i lefelau uwch.

- Mae gormod o ddysgwyr yn tynnu yn ôl o ddosbarthiadau dechreuwyr, am nad ydynt yn gwerthfawrogi pa mor anodd yw dysgu hyd nes y byddant yn dechrau.

- Mewn rhai ardaloedd mae gormod o ddarparwyr yn cystadlu am yr un cleientiaid.

- Mewn llawer o ardaloedd mae’n anodd i ddarparwyr recriwtio tiwtoriaid addas i ateb anghenion lleol. Yn aml mae angen rhagor o hyfforddiant ac arweiniad ar diwtoriaid a byddai’n fuddiol cael llwybr cenedlaethol strwythuredig ar gyfer addysgu/tiwtora ar bob lefel.

- Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn y gweithle yn anwastad ar draws consortia. Mae rhai darparwyr sy’n cynnig ychydig iawn neu ddim byd o gwbl, tra bod eraill yn ymateb yn well i anghenion.

## 6. Hyfforddiant yn y gwaith

**Tystiolaeth**

Dengys tystiolaeth arolygu mai ychydig o hyfforddeion sy’n cwblhau unrhyw ran o’u hyfforddiant neu eu hasesu yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg, hyn yn oed yn yr ardaloedd traddodiadol Gymraeg. Mae llawer o hyfforddeion o ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog yn penderfynu troi’n gyfan gwbl i’r Saesneg ar gyfer eu hyfforddiant. Yn aml, nid yw darparwr yn gwneud digon i bennu’r galw am hyfforddiant dwyieithog, neu ni wnânt ddigon i’w hyrwyddo’n weithredol. Lle nodir galw am hyfforddiant dwyieithog yn ystod y cam sefydlu neu’r cam cyfweld, mae darparwyr yn ceisio ateb y galw hwnnw ond yn

aml cânt anhawster o ran cael gafael ar ddeunyddiau ac aseswyr Cymraeg.

Ychydig o Sefydliadau Hyfforddi Cenedlaethol a chyrff dyfarnu sy'n cynhyrchu deunyddiau'n ddwyieithog. Lle bydd hyfforddiant yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, mae darparwyr yn aml yn cynhyrchu eu hyfforddiant, eu hasesu a'u deunyddiau cyfeirio dwyieithog eu hunain, gan gynnwys y rheini ar gyfer datblygu'r medrau allweddol.

Yn aml mae darparwyr yn colli cyfleoedd i hyrwyddo dwyieithrwydd, hyd yn oed pan gyfyd y rhain yn naturiol yn y gweithle.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da lle bydd safonau galwedigaethol wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg a lle mae hyfforddwyr Cymraeg sy'n gallu cefnogi'r gwaith. Mae rhai lleoliadau'n gweithredu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn helpu hyfforddeion i gadw a gwella eu medrau iaith.

**Prif feysydd pryder**

- Nid oes digon o hyfforddeion yn datblygu eu medrau yn ystod hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ni ddarperir digon o hyfforddiant i gynnig dilyniant o ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

- Mae llawer o hyfforddeion yn gweithio mewn llefydd lle mai'r Gymraeg yw'r iaith o ddydd i ddydd. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddwyr ac aseswr yn hapus i siarad yn anffurfiol neu gynnal cyfweliadau neu adolygiadau yn y Gymraeg, ond ychydig sy'n ddigon hyderus i hyfforddi neu asesu yn y Gymraeg.

- Mae diffyg deunyddiau Cymraeg perthnasol i gefnogi hyfforddi ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi iaith feunyddiol llawer o weithleoedd.

## 7. Gyrfaoedd

**Tystiolaeth**

Dengys ein tystiolaeth fod mwy a mwy o ddeunyddiau Cymraeg ar gael i bobl ifanc a rhieni er mwyn eu helpu i

feddwl am yrfaoedd. Yn gyffredinol, mae cwmnïau gyrfaoedd yn ymateb yn gadarnhaol i anghenion Cymraeg eu cleientiaid, ond yn aml cânt drafferth i ddarparu ymgynghorwyr Cymraeg i ysgolion uwchradd Cymraeg ymhob achos. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn gweithio'n galed i unioni'r mater hwn, a rhai yn cael mwy o lwyddiant arni nag eraill. Mewn gwaith gyrfaoedd, nid oes digon o wybodaeth ar gael am y farchnad lafur a gwerth y Gymraeg yn y gweithle na'r galw am staff dwyieithog.

Mae cwmnïau gyrfaoedd yn gweithio gydag asiantaethau eraill i symud yr agenda Gymraeg yn ei blaen.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

Yn yr achosion gorau, caiff pobl ifanc a'u rhieni fynediad hawdd i ystod dda o lyfrynnau a chyhoeddiadau gwybodaeth dwyieithog er mwyn eu helpu i gynllunio ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol.

Os dymunant, gall pobl ifanc a rhieni gynnal cyfweliadau yn y Gymraeg a chael cyngor dros y ffôn gan gwmnïau gyrfaoedd yn Gymraeg.

Weithiau, mae cwmnïau'n amlygu galwedigaethau lle mae prinder siaradwyr Cymraeg wrth gynghori siaradwyr Cymraeg.

Gall pobl ifanc a rhieni gael cynlluniau gweithredu gyrfaoedd yn y Gymraeg os dymunant eu cael.

**Prif feysydd pryder**

- Nid yw pob cwmni yn ddigon gweithredol o ran cysylltu dwyieithrwydd â chyfleoedd cyflogaeth.
- Nid atebir y galw am wasanaethau gyrfaoedd dwyieithog mewn ysgolion uwchradd ymhob achos.

## 8. Awdurdodau addysg lleol

**Tystiolaeth**

Mae gan awdurdodau addysg lleol (AALl) gyfrifoldeb dros gyflenwi digon o leoedd mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth Gymraeg a dwyieithog sy'n 'gytbwys â'r galw' (gwellcymru.com). Mae AALl yn cyhoeddi

cynlluniau trefnu ysgolion i gynnwys cyfnod 5-mlynedd gan eu diweddaru bob blwyddyn.

Mae gofyn i AALl gyhoeddi cynlluniau iaith Gymraeg a'u cyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

O ganlyniad i Ddeddf Addysg 1980, dyrannwyd cyllid i'r AALl i gynnal addysg cyfrwng Cymraeg. Sefydlwyd tîm o athrawon bro i gefnogi'r gwaith o addysgu'r Gymraeg. Ategwyd y cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn drwy grantiau ar gyfer cynnal addysg a hyfforddiant (GCAH). Mae tîm o athrawon bro gan y rhan fwyaf o AALl sy'n gweithredu yn y sector cynradd a/neu uwchradd. Ariennir yr athrawon bro ar hyn o bryd drwy grantiau, gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyfrannu 75% o'r dyraniad a'r AALl yn cyfrannu 25%. Dyfernir grantiau yn unol â phedwar maes blaenoriaeth:

- athrawon bro;
- canolfannau ar gyfer hwyr-ddyfodiaid;
- cyrsiau iaith preswyl; a
- phrosiectau peilot.

Mae cyfrifoldeb ar yr AALl i ddarparu gwasanaethau cynnal ac addysg a hyfforddiant mewn swydd (HMS) ar gyfer ysgolion, gan gynnwys ysgolion Cymraeg a dwyieithog.

Dengys tystiolaeth nad oes digon o ddeunyddiau i gefnogi addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae sefyllfa debyg yn bodoli ynghylch addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith. Ers blynyddoedd lawer mae AALl wedi datblygu a chyhoeddi eu deunyddiau eu hunain yn ôl yr anghenion a ganfyddir yn lleol. Yn y gorffennol, rhennid y deunyddiau hyn gyda'r AALl drwy'r ymgynghorwyr Cymraeg yn bennaf. Fodd bynnag, mae mwy o bwysau ar gyllidebau bellach ac mae AALl yn tueddu i gynhyrchu digon o adnoddau i ateb eu hanghenion eu hunain a dim mwy. Ar draws Cymru, mae hyn yn arwain at lawer o ddyblygu o ran ymdrech ac adnoddau.

Nid yw cynlluniau trefnu ysgolion bob amser yn cynnwys digon o wybodaeth gynllunio am y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Hyd yn oed mewn AALl lle mae galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae rhy ychydig o ddadansoddi a dim digon o flaen-gynllunio. Er enghraifft, lle mae niferoedd ar gynnydd mewn ysgolion cynradd dwyieithog, yn aml ni wneir digon o waith cynllunio ar gyfer y ddarpariaeth uwchradd ddwyieithog.

Yn y bröydd traddodiadol Cymraeg, mae diffyg parhad yn aml rhwng darpariaeth ddwyieithog yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Yn aml dewisiadau cyfyngedig a ddarperir i ddisgyblion a fu'n dysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn ysgolion cynradd barhau â'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn ysgolion uwchradd. Addysgir rhai pynciau drwy gyfrwng y Saesneg yn unig hyd yn oed mewn ysgolion Cymraeg, ac mae hyn yn andwyo llawer o'r gwaith da a gyflawnwyd yn y sector cynradd.

Yn aml mae'r galw ar athrawon bro yn drwm. Mewn rhai ardaloedd Saesneg, hwy yw prif athrawon y Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Hwy sy'n darparu HMS hefyd ar gyfer athrawon cynradd Saesneg eu hiaith er mwyn eu galluogi i addysgu'r iaith eu hunain yn eu hystafelloedd dosbarth. Yn y bröydd Cymraeg, cefnogant addysg cyfrwng Cymraeg ac yn aml hwy sy'n hyrwyddo dyfeisgarwch ac arfer da. Yn aml hwy sy'n cymryd y prif gyfrifoldeb dros integreiddio hwyr-ddyfodiaid Saesneg eu cyfrwng yn llwyddiannus drwy eu gwaith gyda'r canolfannau iaith.

Ychydig o AALl sydd â'r personél i gynnal gwaith HMS yn annibynnol ar eraill, ac mae gan lai fyth nifer y staff Cymraeg sydd eu hangen i gynnal ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn effeithiol. Mae asiantaethau traws-sirol wedi'u sefydlu yn dilyn ad-drefnu ym 1996 i wneud y rhan fwyaf o'r gwaith hwn ar ran yr AALl. Fodd bynnag, dim ond un neu ddwy asiantaeth ar draws Cymru sy'n gallu cynnal ysgolion Cymraeg, dwyieithog a Saesneg eu cyfrwng mewn dull sydd yr un mor effeithiol, ac sy'n cynnig HMS yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws holl bynciau'r CC.

**Beth sy'n gweithio'n dda?**

Mae partneriaethau rhwng AALl yn helpu i gyflwyno HMS cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn effeithiol. Mae asiantaethau traws-sirol, er enghraifft Cynnal a Chymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg, hefyd yn effeithiol yn hyn o beth. Mae cydweithio â phartneriaethau hefyd yn bwysig wrth ledaenu a rhannu deunyddiau ac adnoddau. Fodd bynnag, mae'r gwaith rhyng-awdurdod hwn wedi'i gyfyngu i ychydig AALl; mae llawer o ysgolion dwyieithog mewn ardaloedd eraill yn ei chael yn anodd cael mynediad i HMS perthnasol a phenodol sy'n ystyried eu hanghenion o ran dwyieithrwydd.

Mae llawer o gynlluniau iaith Gymraeg yn dangos sut mae awdurdodau'n bwriadu gwneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg yn eu gwaith gweinyddol a rheoli, er enghraifft caffael

gwasanaethau cyfieithu fel y gellir dosbarthu mwy o ddogfennau dwyieithog i ysgolion.

**Prif feysydd pryder**

- Mae diffyg cymharol deunyddiau Cymraeg a dwyieithog o hyd i gynnal addysgu a dysgu effeithiol er y gwnaed llawer o waith da.
- Nid yw AALl bob amser yn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Cymraeg a dwyieithog yn ddigon trylwyr a manwl.
- Nid oes digon o ymgynghorwyr a/neu athrawon bro ar draws Cymru i gefnogi twf darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn llawn.
- Yn aml mae'r parhad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o ran y ddarpariaeth Gymraeg yn wan. Mae hyn tanseilio cynnydd y disgyblion ac yn andwyo'r cynnydd a wnaed gan lawer.

## 9. Hyfforddiant cychwynnol i athrawon

**Tystiolaeth**

Mae wyth sefydliad addysg uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) mewn partneriaeth ag ysgolion. Gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth, Bangor neu Goleg y Drindod, Caerfyrddin. Mae rhai hyfforddeion mewn sefydliadau eraill hefyd yn cael arian ychwanegol er mwyn eu helpu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd. Mae pob darparwr yn cynnig rhywfaint o hyfforddiant neu gefnogaeth i hyfforddeion sy'n dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er bod graddau'r gefnogaeth hon yn amrywio'n helaeth.

Mae saith darparwr (sef pob un ond Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru) yn cynnig cyrsiau uwchradd, ac mae pedwar ohonynt (Aberystwyth, Bangor, Abertawe ac Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd) yn darparu cyrsiau ar gyfer addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Mewn dau sefydliad (Aberystwyth, Bangor), gall hyfforddeion hyfforddi yn y rhan fwyaf o bynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gyfer cyrsiau cynradd, mae pob darparwr yn cynnig y cyfle i ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith ac mae'r ymateb yn helaeth yn gyffredinol. Mae llawer o'r hyfforddeion

Saesneg eu hiaith yn dewis dysgu'r Gymraeg fel rhan o'u hyfforddiant. Gwnaiff llawer o'r rhain gynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg wrth addysgu. Mae'r hyfforddiant yn aml yn cyfuno addysgu'r Gymraeg â darparu golwg werthfawr ar y dulliau o'i haddysgu fel ail iaith. Mae nifer fach o hyfforddeion Cymraeg eu hiaith yn dewis peidio â hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg. Mae lle i annog yr hyfforddeion hyn i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn eu hyfforddiant.

Mae tystiolaeth o'r arolygiadau diweddaraf (Aberystwyth a'r Drindod) yn dangos bod safon hyfforddiant hyfforddeion Cymraeg yn debyg i safon hyfforddiant hyfforddeion Saesneg. Mae hyfforddeion sy'n addysgu yn y Gymraeg yn deall anghenion disgyblion dwyieithog. Fel arfer mae eu gwaith cynllunio ac addysgu yn effeithiol o ran helpu disgyblion i ddatblygu yn y ddwy iaith. Mae medrusrwydd mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar yn dda ar gyfer hyfforddeion cynradd ac yn foddhaol ar gyfer hyfforddeion uwchradd. Mae hyfforddeion sy'n cael eu hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg yn cymryd rhan dda mewn trafodaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r hyfforddeion hyn yn cwblhau eu haseiniadau ysgrifenedig i safon dda yn gyffredinol a chânt afael gadarn ar y pwnc a thermau addysg yn y Gymraeg.

Dengys tystiolaeth ddiweddar fod ansawdd yr hyfforddiant yn y coleg ar gyfer addysgu yn y Gymraeg yn aml yn dda yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc. Ar gyrsiau cynradd, gall hyfforddeion astudio'r rhan fwyaf o bynciau yn y Gymraeg. Fel arfer mae tiwtoriaid yn darparu model iaith da iawn. Yn yr arfer cynradd gorau, pwysleisir y tir cyffredin rhwng addysgu yn y ddwy iaith yn aml. Ar gyrsiau uwchradd, mewn ychydig bynciau lle mai yn y Saesneg yn unig y mae swmp yr hyfforddiant uniongyrchol ar gael, nid oes digon o gefnogaeth bob amser i hyfforddeion sy'n addysgu yn y Gymraeg. Mae colegau'n cynnig cyrsiau gloywi iaith ar gyfer hyfforddeion sy'n addysgu yn y Gymraeg. Mae'r cyrsiau hyn o ansawdd da a chefnogant ddatblygiad iaith hyfforddeion yn dda. Yn ddefnyddiol ddigon, caiff y gefnogaeth ychwanegol hon ei hymestyn i addysgu yn yr ysgol.

Dengys ein tystiolaeth fod yn rhaid i ysgolion uwchradd mewn rhai ardaloedd, er enghraifft gogledd-ddwyrain Cymru, ddefnyddio staff anarbenigol lle mai'r gallu i siarad yr iaith yw eu hunig gymhwyster. Yn aml gwna'r athrawon hyn eu gorau ac maent fel arfer yn frwdfrydig, ond ni chawsant eu hyfforddi yn y fethodoleg o sut i addysgu ieithoedd yn effeithiol.

Mae nifer o ymgeiswyr sy’n is na’r cyfartaledd yn ymgeisio am swydd i addysgu’r Gymraeg fel ail iaith. Cadarnheir hyn gan adroddiad arolwg diweddar ar recriwtio athrawon gan Gyngor Addysgu Cyffredinol (CAC) Cymru. Ar ben hyn, mae nifer sy’n is na’r cyfartaledd yn ymgeisio am swyddi lle addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Cadarnheir hyn hefyd gan adroddiad CAC. Eleni, mae Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd yn nodi prinder athrawon Cymraeg fel pwnc mewn ysgolion uwchradd, yn ogystal â phrinder athrawon sy’n gallu addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Beth sy’n gweithio’n dda?**

Gwna athrawon dan hyfforddiant gynnydd da pan nodir gwendidau yn eu Cymraeg ysgrifenedig hwy eu hunain a mynd i’r afael â’r rhain mewn modd systemataidd a thrylwyr yn ystod eu hyfforddiant.

Mae llawer o hyfforddeion yn mynychu cyrsiau atodol i wella’u gallu i ysgrifennu a siarad Cymraeg. Bu’r elfen hon yn ddefnyddiol iawn wrth godi lefel hyder hyfforddeion a’u hyfedredd ieithyddol, gan eu paratoi’n well ar gyfer eu rôl addysgu mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Mae’r ymagwedd hon yn gweithio orau i’r hyfforddeion y mae eu gallu yn y Gymraeg yn gymharol gryf. Yn aml mae hyfforddeion eraill yn sylwi na allant barhau â’u cwrs Cymraeg wrth i alwadau eu cwrs gynyddu.

Gwna rhai staff mewn sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon rai cyfraniadau da i gefnogi addysgu yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn fwy cyffredinol. Ymhlith yr enghreifftiau mae cynhyrchu arweiniad i athrawon ar addysgu’r Gymraeg ac i athrawon sy’n addysgu mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwna myfyrwyr gynnydd da pan fydd tiwtoriaid yn eu hysgolion sy’n siarad Cymraeg ac sy’n gallu cefnogi datblygiad eu medrau Cymraeg yn y gweithle.

**Prif feysydd pryder**

- Mae diffyg cymharol athrawon sy’n ymuno â’r proffesiwn sy’n gallu addysgu’r Gymraeg fel pwnc ac mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac nid oes yna unrhyw dargedau er mwyn eu hyfforddi.

- Nid oes digon o gefnogaeth tiwtorial ar gyfer myfyrwyr Cymraeg yn y sefydliadau nad ydynt yn cynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Mae data'r Cynlluniad ar recriwtio yn canolbwyntio ar swyddi gwag mewn ysgolion. Nid yw hyn yn darparu digon o wybodaeth am gymwysterau'r athrawon sy'n addysgu ar hyn o bryd.

## 10. Llythrennedd deuol mewn ysgolion

Mae llythrennedd deuol yn agwedd ar ddwyieithrwydd. Mae'n caniatáu i'r dysgwr elwa ar hyfedredd mewn dwy iaith. Mae'n cynnwys y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd yn y ddwy iaith a throi'n hyderus a llyfn rhwng ieithoedd at wahanol ddibenion.

### Tystiolaeth

Mae medrau llythrennedd deuol sydd wedi'u datblygu'n dda yn fedrau cymdeithasol y rhoddir gwerth uchel arnynt. Maent hefyd yn fedrau y gellir eu marchnata'n dda iawn yn y gweithle. Maent yn galluogi dysgwyr i gyrchu gwybodaeth a barn, yn ogystal â llenyddiaeth ar bob ffurf, yr un mor hyddysg yn y ddwy iaith.

Dengys ein tystiolaeth fod rhywfaint o arfer da o ran datblygu medrau llythrennedd deuol disgyblion mewn ysgolion. Disgrifir ac arfernir hyn yn ein papur trafod ar lythrennedd deuol.

Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn adeiladu'n ddigonol ar fedrau dwyieithrwydd disgyblion nac yn eu helpu i droi o'r naill iaith i'r llall yn systemataidd hawdd ac yn hyderus ymhob un o'r tri modd sef siarad, darllen ac ysgrifennu ac yn y rhan fwyaf o gyd-destunau a sefyllfaoedd yn ôl yr angen.

### Beth sy'n gweithio'n dda?

Mae rhai ymgynghorwyr AALl (er enghraifft yn Sir Benfro a Gwynedd) yn gwneud gwaith arloesol mewn cydweithrediad ag athrawon yn y sector dwyieithog er mwyn cynhyrchu adnoddau i lywio arfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae rhai o'r deunyddiau ar fin cael eu cyhoeddi.

Bu rhywfaint o HMS effeithiol yn hyn o beth, gan gynnwys rhai deunyddiau fideo a gynhyrchwyd gan Adran Addysg y BBC.

**Prif feysydd pryder**

- Ni ddatblygir llythrennedd deuol yn ddigon systemataidd.

- Ychydig iawn o HMS sydd i arwain athrawon i ddatblygu medrau llythrennedd deuol disgyblion.

## Argymhellion

**Er mwyn codi safonau mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae angen:**

1. sefydlu sail ystadegol gadarn ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector nas cynhelir ym maes darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar.

2. parhau i ddatblygu a mireinio medrau ieithyddol athrawon ysgolion cynradd sy'n ddysgwyr Cymraeg er mwyn eu helpu i addysgu'r Gymraeg fel ail iaith;

3. annog mwy o ddefnydd o gyflwyno'n ddwyieithog ar gyfer pynciau heblaw am y Gymraeg mewn ysgolion cynradd Saesneg eu cyfrwng;

4. datblygu, yn y tymor byr, fframwaith cenedlaethol ar gyfer cynnwys a chyflwyno gwersi Cymraeg fel ail iaith ar draws pob cyfnod allweddol gyda'r prif nod o gyflawni rhwyddineb erbyn diwedd cyfnod allweddol 3;

5. prosiectau peilot sy'n anelu at ddatblygu trefniadau mwy effeithiol ar gyfer cyflwyno'r Gymraeg, er enghraifft defnyddio mwy o gyrsiau dwys, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, fel y gall mwy o ddisgyblion ddewis cael addysg gyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd;

6. lleihau nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i gael eu hasesu mewn Cymraeg ail iaith ar ôl dilyn rhaglenni astudio yn gynharach mewn Cymraeg iaith gyntaf;

7. datblygu llythrennedd deuol yn fwy systemataidd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a chefnogi'r datblygiad hwn ag arweiniad perthnasol a hyfforddiant mewn swydd perthnasol;

8. datblygu rhaglen hyfforddiant genedlaethol i arwain athrawon Cymraeg ail iaith, yn enwedig yr athrawon hynny mewn ysgolion uwchradd nad ydynt yn arbenigwyr iaith ond sy'n addysgu Cymraeg ail iaith oherwydd prinder arbenigwyr Cymraeg yn gyffredinol;

9. lleihau nifer y disgyblion nad ydynt yn sefyll unrhyw arholiad mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4;

10. cynyddu cyfran y disgyblion sy’n cael eu cyflwyno ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf, yn enwedig yn yr AALl hynny lle mae cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg a lefel gymharol isel o ddisgyblion yn cael eu cyflwyno;

11. annog ymchwil bellach i ymarferoldeb achredu deuol ym maes asesu’r Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith er mwyn cael budd model continwwm o ddatblygu iaith;

12. gwneud mwy o ddefnydd o’r Gymraeg i addysgu pynciau mewn ysgolion uwchradd lle mai’r Saesneg yw’r prif gyfrwng addysgu (yn enwedig yn y pynciau ymarferol fel addysg gorfforol, celf, drama, technoleg a cherddoriaeth) ;

13. gwella’r parhad rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn y sectorau Cymraeg a dwyieithog ac rhwng ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach;

14. trefnu cefnogaeth a hyfforddiant mewn swydd ar gyfer ysgolion Cymraeg a dwyieithog ar lefel genedlaethol a lleihau’r beichiau ar AALl unigol;

15. sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o athrawon bro er mwyn defnyddio technoleg gwybodaeth a dysgu i gefnogi gwelliannau ym maes addysgu a dysgu;

16. gosod targedau ar gyfer cynyddu nifer y myfyrwyr sy’n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ym meysydd addysg bellach a hyfforddiant;

17. gosod targedau i gynyddu nifer yr athrawon sy’n cael eu hyfforddi i addysgu’r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg;

18. ceisio dod o hyd i ffyrdd o ddenu mwy o athrawon dan hyfforddiant i fynychu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon sy’n eu paratoi’n effeithiol i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog;

19. sicrhau bod digon o ddeunyddiau perthnasol ar gael i gwmnïau hyfforddi er mwyn iddynt hyfforddi ac asesu eu cleientiaid drwy gyfrwng y Gymraeg, gan adeiladu ar iaith feunyddiol llawer o weithleoedd;

20. gwneud yn sicr bod pob cwmni hyfforddi a chwmni gyrfaoedd yn hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd yn y gweithle; a

21. darparu cymwysterau addysg a hyfforddiant sy’n cynnig modd o asesu’n ddwyieithog.